

1



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Thema 1: Arweinyddiaeth ar gyfer system sy'n gwella ei hun Adnoddau 1–7

www.llyw.cymru



Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd



Cynulleidfa

Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru, lleoliadau meithrin ac unedau cyfeirio disgyblion.

Trosolwg

Dyma'r gyntaf o bum thema yn *Wynebu'r her gyda'n gilydd (YGaTh): Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion Cymru* Llywodraeth Cymru. Pwrpas y pecyn cymorth yw darparu cefnogaeth ymarferol i ysgolion yng Nghymru i'w helpu i ddatblygu a chryfhau eu dull o ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd.

Mae'r adnoddau o dan y thema hon yn ceisio annog ysgolion i ystyried a chynllunio eu ffordd o ymdrin â dysgu fel teulu a dysgu cymunedol fel rhan o system sy'n ei gwella ei hun. Maen nhw'n ymwneud yn benodol â'r angen i gynnwys ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd yn rhan o ethos yr ysgol ac i egluro hyn yn y cynllun datblygu ysgol.

Camau i'w cymryd

I'w ddefnyddio wrth gynllunio ymyriadau i wella cyrhaeddiad dysgwyr sy'n byw mewn tlodi.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cangen Amddifadedd ac Ymgysylltu
Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3630

e-bost:

deprivationandengagement@cymru.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon yn ogystal â chanllawiau defnyddiol eraill ar gael ar wefan Dysgu Cymru yn dysgu.llyw.cymru/amddifadedd

Dogfennau cysylltiedig

Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru (2014)

www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/rewriting-the-future-schools/?lang=cy



Cynnwys

Adnodd 1: Cynlluniau datblygu ysgol	4
Adnodd 2: Arweinwyr a llywodraethwyr	8
Adnodd 3: Archwiliad camau cyntaf syml	13
Adnodd 4: PowerPoint YGaTh	19
Adnodd 5: Offeryn archwiliad uwch	27
Adnodd 6: Gwerthuso	39
Adnodd 7: Arolygiadau Estyn ac YGaTh	42

1

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd **Thema 1: Adnodd 1** Cynlluniau datblygu ysgol



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Gwybodaeth am reoliadau'r cynllun datblygu ysgol mewn perthynas ag YGaTh.
- Cynnwys YGaTh yng nghylch y cynllun datblygu ysgol.
- Cydgynhyrchu.
- Y cymorth sydd ar gael i ddatblygu'ch cynllun datblygu ysgol.

Gwybodaeth am reoliadau'r cynllun datblygu ysgol mewn perthynas ag YGaTh

Erbyn 1 Medi 2015 bydd yn ofynnol i'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru fabwysiadu cynllun datblygu ysgol (CDY) sy'n gyson â **Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014**. Bydd y CDY yn gynllun treigl tair blynedd sy'n egluro sut y bydd yr ysgol yn cyrraedd ei thargedau'n unol â'i blaenoriaethau a sut y bydd yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddi. Bydd yn dangos hefyd sut y mae'r ysgol yn bwriadu datblygu ei staff er mwyn cyflawni blaenoriaethau a thargedau'r ysgol.

Dogfen ganllaw Cylchlythyr 155/2014

Mae paragraff 4 o Reoliad 4 yn y Rheoliadau (*Cynnwys cynllun datblygu ysgol: Gweithio gyda'r gymuned*), yn ei gwneud yn ofynnol i'r CDY nodi:

Manylion am sut y bydd y corff llywodraethu yn ceisio cyflawni targedau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn gyfredol drwy weithio gyda—

(a) disgyblion yn yr ysgol a'u teuluoedd; a

(b) pobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal y mae'r ysgol wedi ei lleoli ynddi.

Mae'r ddogfen ganllaw yn dweud:

Bydd holl bartneriaid a rhanddeiliaid yr ysgol yn cyfranogi i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae'n bwysig bod yr ysgol gyfan a'r gymuned ehangach yn ymwybodol o gynlluniau'r ysgol i sicrhau gwelliant.

Y CDY yw cynllun strategol yr ysgol ar gyfer gwella. Bydd blaenoriaethau'r ysgol yn cynnwys y ffordd y mae'r ysgol yn ymdrin â'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn:

- codi safonau addysg mewn perthynas â llythrennedd
- codi safonau addysg mewn perthynas â rhifedd
- lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Bydd angen hefyd i'r CDY ddangos yn glir sut y bydd YGaTh yn cael ei ddefnyddio i helpu'r ysgol i gyrraedd ei thargedau ar gyfer gwella. Mae'r pecyn cymorth hwn, ac yn enwedig yr offer archwilio sydd ynddo, wedi'i ddarparu i helpu ysgolion i bennu'r ffordd orau o gyflawni hyn.

Cynnwys YGaTh yng nghylch y cynllun datblygu ysgol

Gall ysgolion ddewis cynnwys YGaTh yng nghylch y CDY mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:

- egluro sut y maent yn bwriadu ystyried barn teuluoedd a'r gymuned yn ystod y cylch cynllunio (gweler yr adnodd **Grwpiau rhieni/gofalwyr a lleisiau rhieni/gofalwyr** (Thema 3: Adnodd 7) yn y pecyn cymorth hwn)
- cynnwys YGaTh yn flaenoriaeth dymor byr neu dymor hir ar gyfer gwella'r ysgol
- cynnwys targedau CAMPUS ar gyfer gweithgareddau YGaTh
- mabwysiadu cynllun gweithredu sy'n cynnwys gweithgareddau YGaTh sydd wedi'u cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol, er enghraifft drwy ffurfio cysylltiadau clir rhwng ymgysylltu â theuluoedd a'r flaenoriaeth genedlaethol o fynd i'r afael ag effaith amddifadedd mewn addysg
- tynnu sylw at YGaTh yn hunanwerthuso'r ysgol (gweler yr adnodd **Arolygiadau Estyn ac YGaTh** (Thema 1: Adnodd 7) yn y pecyn cymorth hwn)
- egluro sut y mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion neu ffynonellau cyllid eraill yn cael ei ddefnyddio i ariannu camau gweithredu yn y CDY, gan gynnwys camau sy'n ymwneud ag YGaTh
- cynnwys gweithgareddau datblygu staff sy'n canolbwyntio ar feithrin gallu'r ysgol ar gyfer YGaTh (gweler yr adnoddau **Rolau staff YGaTh** (Thema 2: Adnodd 2) a **Dadansoddi anghenion datblygu ar gyfer YGaTh** (Thema 2: Adnodd 1) yn y pecyn cymorth hwn)
- cynnwys datganiad byr ar bolisi YGaTh. Mae enghraifft o ddatganiad ar bolisi YGaTh (gan Gyngor Dinas Sheffield) yn y blwch ar dudalen 7.

Cydgynhyrchu

Gallech hefyd ystyried defnyddio'r dechneg cydgynhyrchu i roi lle mwy canolog i deuluoedd a chymunedau yn y gwaith o ddatblygu'ch CDY. Yn ystod y cydgynhyrchu, bydd yr holl randdeiliaid yn ymwneud â chynllunio a datblygu gwasanaethau. Mae'n ffordd fwyfwy poblogaidd o gynnwys yr holl bartïon ym mhroses gynllunio'r ysgol.

Er mwyn cychwyn arni, gallech ddefnyddio'r rhestr wirio cydgynhyrchu sydd ar ddiwedd yr adnodd **Grwpiau rhieni/gofalwyr a lleisiau rhieni/gofalwyr** (Thema 3: Adnodd 7) yn y pecyn cymorth hwn i bennu'r graddau y mae grwpiau penodol yn cymryd rhan eisoes mewn penderfyniadau yn eich ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am gydgynhyrchu yn www.coproductionnetwork.com/page/about-coproduction a www.timebanking.org/about/co-production-and-timebanking

Y cymorth sydd ar gael i ddatblygu'ch cynllun datblygu ysgol

Corff llywodraethu yr ysgol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi, monitro, adolygu a diwygio'r CDY. Yn ymarferol, bydd y pennaeth yn gweithio gyda'r staff a'r corff llywodraethu i lunio'r CDY a bydd yn gyfrifol am gyflawni'r camau a'r strategaethau sydd eu hangen i sicrhau gwelliant. Mae rhagor o ganllawiau ar gael am gylch y CDY yn www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolhome/school-development-plans/?skip=1&lang=cy

Bydd y CDY yn chwarae rhan allweddol yn y model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol drwy bennu'r ffordd y bydd **cynghorwyr herio** yn cyflawni eu rôl mewn ysgolion. Felly dylai cynghorwyr herio a chonsortia rhanbarthol gynnig cymorth yn y broses o ddatblygu CDYau.

Yn ei lawlyfrau ar hunanarfarnu, mae **Estyn** yn pennu'r nodweddion sy'n allweddol mewn CDY effeithiol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am hyn ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/arweiniad-arolygu

Gallai ysgolion wneud defnydd hefyd o'r pecyn 'Dysgu proffesiynol' ar wefan **Dysgu Cymru** sy'n cynnwys y pwnc 'Athrawon fel ymchwilwyr' sy'n darparu cyngor ac arweiniad buddiol ar ddefnyddio data ar gyfer hunanwerthuso: www.learning.gov.wales/resources/learningpacks/mep/professional-learning/?skip=1&lang=cy

Mae rhaglen Ailysgrifennu'r dyfodol Llywodraeth Cymru yn cynnwys galw ar ysgolion i gymryd camau i geisio chwalu'r rhwystrau rhag dysgu sy'n wynebu dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Mae hyn yn cynnwys thema ar YGaTh. www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/rewriting-the-future-schools/?skip=1&lang=cy

Polisi ar gyfer cynnwys rhieni (enghraifft o Gyngor Dinas Sheffield)

Nod

Hyrwyddo partneriaeth â rhieni a'u rhan yn nysgu eu plant ac ym mywyd yr ysgol.

(Ystyr 'rhieni' ym mhob rhan o'r ddogfen hon yw'r bobl hynny sy'n brif ofalwyr i blant yn ein hysgol a gallent gynnwys neiniau a theidiau, gofalwyr maeth ac eraill.)

Amcanion

- Meithrin ethos ac awyrgylch lle mae'r holl rieni'n teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.
- Cynnal dull 'drws agored' fel bod rhieni'n gallu cyfathrebu â staff yn rheolaidd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol.
- Darparu cymaint o wybodaeth â phosibl mewn ffyrdd amserol, penodol, pwrpasol a hawdd eu deall fel bod rhieni'n teimlo'n hyderus a gwybodus wrth gefnogi dysgu eu plant.
- Gofyn am farn rhieni a gweithredu ar ei sail.
- Darparu cefnogaeth ac anogaeth i deuluoedd sy'n profi anawsterau/argyfyngau, neu rwystrau rhag ymgysylltu.
- Gweithio gyda rhieni i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn y cartref a'r ysgol.
- Ceisio darparu amrywiaeth o weithgareddau, cyrsiau a gweithdai, i hyrwyddo'r ymwneud gan rieni â dysgu eu plant yn ogystal â 'dysgu gydol oes' ar gyfer plant ac oedolion.



1

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd Thema 1: Adnodd 2 Arweinwyr a llywodraethwyr



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Arweinyddiaeth i gryfhau YGaTh.
- Cyfrinachau llwyddiant.
- Peryglon i'w hosgoi.
- Safonau proffesiynol.
- Rhestr wirio – pa dasgau y gall hyn ei olygu'n ymarferol?

Arweinyddiaeth i gryfhau YGaTh

Mae tystiolaeth gref bod YGaTh, o'i wneud yn effeithiol, yn gallu:

- gwella presenoldeb
- gwella ymddygiad dysgwyr
- gwella cyrhaeddiad dysgwyr
- cyfoethogi'r cwricwlwm
- dod ag adnoddau gwerthfawr i'r ysgol
- cryfhau'r ysgol.

“ Mae adborth gan arweinwyr ysgol yn dangos mai un o'r prif ystyriaethau wrth redeg ysgol fodern yw ceisio peri i rieni gymryd mwy o ran.”

Clare Campbell, pennaeth,
Family 25 Greater Manchester Challenge

Yn aml, fodd bynnag, bydd yr agweddau ymarferol ar ymgysylltu effeithiol â theuluoedd yn her sylweddol i arweinwyr ysgol. Er mwyn cael gwir bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol, rhaid i arweinwyr a llywodraethwyr ysgol fod yn sensitif a diduedd, a gwrando ac ystyried barn teuluoedd. Mae angen iddynt ddeall y rhesymau dros yr amharodrwydd ar ran rhai rhieni/gofalwyr, yn enwedig rhai o deuluoedd incwm isel, i ymwneud â'r ysgol (neu, mewn achosion eraill, eu hymwneud amhriodol neu ymosodol â'r ysgol). Yn wir, mae ymchwil yn dangos mai'r plant difreintiedig hyn sydd â'r mwyaf i'w ennill o bartneriaethau cartref-ysgol.

Wedi i arweinwyr a llywodraethwyr ysgol ddod i ddeall bod YGaTh yn gallu codi safonau'n sylweddol, gallant ystyried wedyn sut y bydd ysgolion yn gallu darparu'r capasiti, yr hinsawdd a'r perthnasoedd sydd eu hangen i wneud i deuluoedd a staff ysgol deimlo'n ddiogel wrth weithio mewn partneriaeth â'i gilydd. Er mwyn helpu'r berthynas i ddatblygu, bydd angen i arweinwyr ysgol sefydlu gweithgareddau sydd yn:

- **helpu aelodau o deuluoedd** i deimlo'n gyfforddus wrth ryngweithio â staff ysgol drwy greu diwylliant croesawgar sy'n gweld gwerth pendant yn y cyfraniadau gan deuluoedd i ddysgu plant
- **ysgogi staff** i weld y manteision a'r pwysigrwydd o weithio gydag aelodau o deuluoedd ac o ailddiffinio'r hyn y mae 'ymgysylltu â'r ysgol' yn ei olygu
- **cefnogi staff** drwy sicrhau eu bod yn cael amser i gynllunio a gweithredu strategaethau ymgysylltu, yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu dysgu, ac yn cael cymorth i gyflawni'r rôl
- **delio â rhwystrau** i ymgysylltu sy'n wynebu teuluoedd a'r gymuned.

Cyfrinachau llwyddiant

Gweledigaeth ac arweinyddiaeth sydd wrth wraidd y gwaith gyda theuluoedd. Mae nifer o astudiaethau wedi edrych ar yr hyn y mae arweinwyr yn ei wneud mewn ysgolion sy'n sicrhau ymgysylltu llwyddiannus â theuluoedd a chymunedau.

- **Gwerthfawrogi'r manteision posibl** – mae arweinwyr yn gwybod bod teuluoedd yn cyfrif a bod rhieni/gofalwyr yn bartneriaid hanfodol yn nysgu eu plant, pa mor anaddawol bynnag y mae cyfraniad gan rieni yn gallu ymddangos ar y dechrau. Maent yn credu'n gryf bod ymdrechion drwy weithgareddau ymgysylltu, ni waeth pa mor anodd ydynt ar y dechrau, yn gallu talu ar eu canfed i'r ysgol yn y tymor hir, o ran safonau, ymddygiad a phresenoldeb. Felly mae gwaith partneriaeth o'r fath yn gallu gwneud y mwyaf o allu ysgolion i wella a sicrhau manteision na ellir eu hennill drwy weithio ar wahân i'w gilydd.
- **Ethos a gweledigaeth** – mae YGaTh wedi'i gynnwys ym mhob rhan o ethos yr ysgol – nid yn y polisiau ar waith cartref a gwisg ysgol yn unig, ond yn y polisi dysgu ac addysgu hefyd.
- **Canolbwyntio'n ddiwyro ar ganlyniadau i blant** – prif bwrpas yr holl weithgareddau ymgysylltu yw helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plentyn.
- **Cynwysoldeb** – mae arweinwyr ysgol yn meithrin ethos o gyfathrebu â'u holl deuluoedd ond yn canolbwyntio'n benodol ar yr angen i gynnwys y grwpiau hynny sydd wedi'u tangynrychioli ym mywyd yr ysgol. Maent yn gwybod pwy yw eu grwpiau targed, yn deall beth sy'n eu rhwystro rhag ymgysylltu a beth yw eu hanghenion a'u dymuniadau, ac yn rhoi strategaethau ar waith i fonitro a gwella'r ymgysylltu ganddynt.
- **Ymrwymiad** – mae arweinwyr ysgol wedi ymrwymo i barhau i geisio cynnwys grwpiau o deuluoedd sydd wedi'u targedu, er budd eu plant, yr ysgol a'r gymuned gyfan. Os bydd grwpiau targed yn gwrthod cymryd rhan, mae'r neges gan arweinwyr ysgol llwyddiannus yn glir – peidiwch ag ildio, daliwch i ofyn am eu barn a daliwch i'w gwahodd, hyd yn oed os ydynt yn eich gwrthod. Yr allwedd yw cynllunio ar gyfer y dyfodol a chynnwys yr holl staff, fel bod pawb yn cyfleu'r un neges: bod ymgysylltu gan deuluoedd yn werthfawr iawn.
- **Egwyddorion ymgysylltu** – mewn ysgolion lle mae YGaTh yn llwyddiannus, mae arweinwyr yn gweithredu mewn ffordd agored, yn gallu gwerthfawrogi cyfoeth bywyd cartref y plant, ac yn ceisio cynnwys cydlyniant cymunedol ym mhob agwedd ar waith eu hysgolion drwy weithio mewn partneriaeth â theuluoedd a grwpiau cymunedol. Rhaid seilio partneriaethau ar ymddiriedaeth, ymrwymiad a phenderfyniad, wedi'u hategu gan sgiliau a gwybodaeth ar y ddwy ochr, gyda'r gallu i asio'r gwaith gan deuluoedd, grwpiau cymunedol a'r ysgol ynghyd drwy greu ymdeimlad o berthyn.

Peryglon i'w hosgoi

- **Adnoddau** – er mwyn sicrhau manteision gwirioneddol drwy godi safonau, mae gwaith YGaTh yn galw am gynllunio, buddsoddi a rhaglen waith strwythuredig ac ymarferol. Mae angen cefnogi a hyfforddi staff. Mae athrawon ysgol yn weithwyr proffesiynol hyfedr sydd wedi'u hyfforddi at safon uchel, ond mae'r rhan fwyaf o'u hyfforddiant, yn enwedig yn y sector cynradd, ar gyfer gweithio gyda phlant ifanc, yn hytrach na gweithio gydag oedolion: sgiliau newydd yw'r rhain sy'n galw am gefnogaeth a hyfforddiant. Bydd arweinwyr hefyd yn sicrhau bod amser, lle a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu.

- **Ceisio datrys yr holl faterion rianta ar eich pen eich hun** – mae'r gwahaniaethau rhwng ymddygiadau rianta sydd wrth wraidd y gwahaniaethau yng nghyrhaeddiad myfyrwyr yn gallu bod yn ganlyniad i bob math o ffactorau gan gynnwys gwerthoedd diwylliannol, hunanhyder, amgylchiadau anodd sy'n ganlyniad i dlodi, iechyd, tai gwael, perthnasoedd problemus, ymhlith pethau eraill. Wrth geisio ymgysylltu â theuluoedd ynghylch dysgu, ac annog rhieni/gofalwyr llai cefnogol i gymryd rhan, rydych yn sicr o weld bod materion ehangach yn galw am sylw.

Dyma lle y mae partneriaethau cymunedol, a **gweithio amlasiantaethol** yn enwedig, yn hanfodol (gweler **Thema 5** yn y pecyn cymorth hwn). Ni ddylai ysgolion ysgwyddo'r baich hwn ar eu pen eu hunain. Drwy ddefnyddio dull Tîm o Amgylch y Teulu, gall ysgolion gyfeirio teuluoedd at gymorth proffesiynol a fydd yn diwallu eu hanghenion, a gall yr ysgol barhau i ganolbwyntio ar ei chenhadaeth graidd o hyrwyddo cyflawniad dysgwyr a pheidio â chael ei dal yn ormodol gan y mater ehangach o gefnogi rhieni/gofalwyr yn fwy cyffredinol.

Safonau proffesiynol

Mae safonau proffesiynol (www.learning.gov.wales/yourcareer/professionalstandards/?skip=1&lang=cy) yn cynnwys nifer o safonau i arweinwyr ysgol sy'n ymwneud yn benodol ag YGaTh.

Safonau arweinyddiaeth	
Arwain ar ddysgu ac addysgu	22. Cael ei weld o amgylch yr ysgol ac yn neilltuo cryn amser i gyfathrebu gyda dysgwyr, staff a rhieni.
Cryfhau'r ffocws cymunedol	57. Creu hinsawdd a diwylliant dysgu yn yr ysgol sy'n ystyried cyfoeth ac amrywiaeth cymuned yr ysgol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. 58. Sicrhau bod gan yr ysgol ran gynhyrchiol fel aelod o'i chymuned leol, a'r gymuned genedlaethol a byd-eang. 59. Creu a hyrwyddo strategaethau cadarnhaol i ddatblygu cysylltiadau hiliol da ac i fynd i'r afael ag aflonyddu hiliol. 61. Sicrhau bod yr ysgol yn chwarae rhan ganolog yn y gymuned. 62. Datblygu dinasyddiaeth dysgwyr er mwyn iddynt wneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned leol a'r gymuned ehangach. 63. Cydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr ALL, i ddarparu ar gyfer lles dysgwyr a'u teuluoedd. 64. Creu a chynnal partneriaeth effeithiol â rhieni, gwarchodwyr a gofalwyr i gefnogi cyflawniad a datblygiad proffesiynol dysgwyr, a'u gwella. 65. Cydweithio yn yr ysgol a thu allan iddi i gyflawni nodau ac amcanion yr ysgol. 66. Cydweithio ag athrawon a chydweithwyr, gan gynnwys y rheini o asiantaethau allanol, i wella dysgu a lles y rheini y maen nhw'n eu haddysgu.

Rhestr wirio – Pa dasgau y gall hyn ei olygu’n ymarferol?

	Camau i’w cymryd
☐ Sicrhau bod aelod penodol o’r uwch dîm arwain yn gyfrifol am yr agenda YGaTh. Mae’n bosibl y bydd y corff llywodraethu am ystyried dynodi llywodraethwr penodol i gysylltu a chefnogi’r aelod o’r uwch dîm arwain.	
☐ Rhoi gwybod bod YGaTh yn flaenoriaeth i’r ysgol i lywodraethwyr, staff ysgol, teuluoedd a rhanddeiliaid eraill (gweler yr adnodd PowerPoint YGaTh (Thema 1: Adnodd 4) yn y pecyn cymorth hwn).	
☐ Gwneud YGaTh yn rhan annatod o ddysgu ac addysgu yn ogystal â pholisïau ar waith cartref, gwisg ysgol a gweithgareddau cymdeithasol.	
☐ Dangos hyn yn y CDY ac mewn targedau cysylltiedig (gweler yr adnodd Cynlluniau datblygu ysgol (Thema 1: Adnodd 1) yn y pecyn cymorth hwn), ac ym mesurau perfformiad staff.	
☐ Sicrhau bod YGaTh yn cael ei ystyried yn ystod proses hunanwerthuso’r ysgol (gweler yr adnodd Arolygiadau Estyn ac YGaTh (Thema 1: Adnodd 7) yn y pecyn cymorth hwn).	
☐ Archwilio a gwerthuso cynnydd yn rheolaidd er mwyn ysgogi myfyrio a chynllunio gwaith pellach (gweler yr adnoddau Archwiliad camau cyntaf syml (Thema 1: Adnodd 3), Archwiliad uwch (Thema 1: Adnodd 5) a Gwerthuso (Thema 1: Adnodd 6) yn y pecyn cymorth hwn), a gweithio ar yr archwiliad hwn gyda chynghorwyr herio.	
☐ Arwain ar sefydlu dull ysgol gyfan a meithrin gallu staff drwy ddatblygiad proffesiynol (Thema 2 yn y pecyn cymorth hwn).	
☐ Goruchwylio camau i helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plant, gan ganolbwyntio ar deuluoedd dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, teuluoedd dysgwyr sy’n tanberfformio ar hyn o bryd, a theuluoedd y mae’n ymddangos nad ydynt yn cynnig fawr o gefnogaeth i ddysgu ar hyn o bryd (Thema 4 yn y pecyn cymorth hwn).	
☐ Goruchwylio camau i ddatblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol (Thema 5 yn y pecyn cymorth hwn).	

1

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd **Thema 1: Adnodd 3** Archwiliad camau cyntaf syml



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal ymarfer archwilio a chynllunio syml ynghylch YGaTh.
- Offeryn archwilio.
- Offeryn cynllunio.

Cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal ymarfer archwilio a chynllunio syml ynghylch YGaTh

Diben: gwerthuso pa mor llwyddiannus ydych chi o ran YGaTh, a myfyrio ynghylch y camau nesaf. Dylid cynnwys hyn ym mhrosesau'r ysgol ar gyfer hunanwerthuso a datblygu'r cynllun datblygu ysgol (CDY).

Pwy i'w gynnwys: llywodraethwr/llywodraethwyr, arweinwyr ysgol, staff addysgu, staff nad ydynt yn addysgu, a chynrychiolwyr y gymdeithas rhieni ac athrawon neu grŵp arall i rieni/gofalwyr.

Dysgwyr o bosibl: byddai'n fuddiol cynnwys dysgwyr mewn ffordd ystyrlon mewn rhai agweddau ar y broses o ddatblygu'ch strategaeth YGaTh, ac mae'n ofynnol ymgynghori â dysgwyr yn y broses cynllunio gwella ysgol.

Cam 1

Mewn grwpiau bach, dilynwch y templed ar y dudalen nesaf (neu amrywiad arno) i ystyried lle rydych chi arni ar hyn o bryd mewn perthynas â'r pum thema yn y fframwaith YGaTh sydd wedi'i ddisgrifio yn y ddogfen ganllaw Wynebu'r her gyda'n gilydd (YGaTh). Nodwch y gweithgareddau presennol. Rhowch sgôr am y sefyllfa bresennol rhwng 0 a 10:

- 0 = dim gweithgarwch/dim llawer o weithgarwch
- 5 = bodloni'r disgrifiad 'dylai pob ysgol ...'
- 10 = bodloni'r disgrifiad 'mewn ysgolion llwyddiannus ...', os yw'r sefyllfa yn union fel yr ydych chi a'ch teuluoedd am iddi fod.

Nodwch pam rydych chi wedi penderfynu ar y sgôr hon, a rhestrwch y gweithgareddau presennol.

Cam 2

Gan feddwl am eich gweithgarwch presennol ar gyfer pob thema, ystyriwch y dystiolaeth sydd gennych ynghylch a yw'ch gweithgareddau'n cael effaith/gwneud gwahaniaeth. Rhowch sgôr am bob dangosydd drwy roi '?' (effaith anhysbys) neu ar raddfa rhwng -3 (effaith negyddol iawn) a +3 (effaith gadarnhaol iawn).

Cam 3

Ar gyfer pob thema ystyriwch y canlynol.

- Ble ar y raddfa 0–10 yr hoffech chi gyrraedd?
- Pa newid sydd ei angen i gyrraedd y sgôr honno?
- Pa wahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a'r ysgol?

- A allai helpu'r ysgol i gyflawni ei blaenoriaethau eraill?

Cam 4

Ar ôl gweithio mewn grwpiau bach, rhannwch eich sgoriau ag eraill ar raddfa 0–10 wag er mwyn cael darlun cyffredinol.

Rhannwch eich barn ynghylch pam rydych chi'n credu eich bod wedi cyrraedd y sgôr honno ar y raddfa a beth allech chi ei wneud i wella.

Ystyriwch y darlun sy'n datblygu – pa rai yw'r meysydd cryf? Ble mae'r bylchau?

Trafodwch flaenoriaethau ar gyfer gweithredu er mwyn cyrraedd y sgôr rydych am ei chyrraedd – gofalgwch eu bod yn realistig ac yn ymarferol a'u bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau eraill yr ysgol.


Cam 5

Efallai y byddwch chi am gofnodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn yr offeryn cynllunio sydd wedi'i ddarparu; mae'n cynnwys lle i nodi'r gweithgaredd, y gynulleidfa arfaethedig, adnoddau a chynlluniau ar gyfer gwerthuso.

Ac eto!

O dan y cylch cynllunio (gweler isod), cynhaliwch yr ymarfer hwn eto ymhen 6 i 12 mis i asesu'r cynnydd a gafwyd a gwerthuso'ch strategaeth i weld a oedd wedi gweithio.

Cylch cynllunio



Sylwer: mae **Offeryn archwiliad uwch** (Thema 1: Adnodd 5) ar gael yn y pecyn cymorth hwn hefyd sydd i'w ddefnyddio gyda'ch cynghorydd herio.

Mae adnodd **Gwerthuso** (Thema 1: Adnodd 6) yn y pecyn cymorth hwn hefyd.

Offeryn archwilio

Thema	Gweithgareddau presennol	Ble rydym nawr? (0–10)	Beth yw'r effaith? (-3 to +3)	Pa sgôr rydym am ei chyrraedd? (0–10)	Pa newid sydd ei angen? Pa adnoddau y byddai eu hangen arnom?	Pa flaenoriaethau ysgol y gallai hyn helpu i'w cyflawni?
1. Arweinyddiaeth ar gyfer system sy'n ei gwella ei hun	Er enghraifft: llywodraethwr penodol? Aelod penodol o'r uwch dîm arwain? YGaTh wedi'i nodi yn y CDY? Wedi'i gydnabod yn glir yn rhan o ethos yr ysgol? Unrhyw weithgareddau penodol i roi gwybod am hyn i randdeiliaid?	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth
2. Sefydlu dull ysgol gyfan o YGaTh	Er enghraifft: wedi'i drafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd staff/llywodraethwyr? Gweithgareddau i ddatblygu capasiti/gallu'r ysgol ar gyfer YGaTh?	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth
3. Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol	Er enghraifft: gweithgareddau croesawu, gweithgareddau 'dod i adnabod', gweithgareddau wedi'u targedu ar grwpiau o deuluoedd sydd wedi'u tangynnycholi, ymweld â chartrefi, dulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd, cyfleoedd i gysylltu'n anffurfiol, trefniant i rieni/gofalwyr fynegi eu barn.	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth

Thema	Gweithgareddau presennol	Ble rydym nawr? (0–10)	Beth yw'r effaith? (-3 to +3)	Pa sgôr rydym am ei chyrraedd? (0–10)	Pa newid sydd ei angen? Pa adnoddau y byddai eu hangen arnom?	Pa flaenoriaethau ysgol y gallai hyn helpu i'w cyflawni?
4. Helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plentyn	Er enghraifft: nosweithiau rhieni/gofalwyr, cyfleoedd dysgu fel teulu, gwaith cartref sy'n ceisio cynnwys y teulu, gwerthuso ymyrraethau, gweithgareddau wedi'u targedu ar ddysgwyr sy'n cael llai o gefnogaeth gartref, cefnogaeth i deuluoedd dysgwyr sydd ag ADY.	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth
5. Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol	Er enghraifft: hyfforddiant ar ddiogelu plant, gweithio amlasiantaethol/Tîm o Amgylch y Teulu, gweithgareddau i hwyluso trosglwyddo rhwng ysgolion, partneriaethau cymunedol i helpu mewn gwaith ymgysylltu â theuluoedd, gweithgareddau sy'n cynnwys partneriaid cymunedol.	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth	Gweler y disgrifiad yn nogfen ganllaw'r pecyn cymorth

Gweithgaredd	Thema	Pa grŵp/grwpiau a dargedir drwy'r gweithgaredd ymgysylltu hwn?	Beth fydd yn ei gynnwys?	Pwy fydd yn ei weithredu?	Adnoddau sydd eu hangen	Sut y bydd yr effaith yn cael ei mesur?
e.e. ailddrafftio'r CDY i gynnwys YGaTh	1. Arweinyddiaeth ar gyfer system sy'n ei gwella ei hun	e.e. yr holl deuluoedd, ond gyda ffocws ychwanegol ar deuluoedd dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)/teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ...	e.e. un cyfarfod i drafod newidiadau posibl a phroses ymgynghori, digwyddiad ymgynghori gyda theuluoedd, golygu'r ddogfen i wneud y newidiadau, un cyfarfod i gytuno ar y newidiadau.	e.e. pennaeth, llywodraethwyr, uwch dîm arwain.	e.e. pedwar diwrnod o amser staff (i drefnu cyfarfodydd a digwyddiad ymgynghori), te a choffi yn y digwyddiad ymgynghori.	e.e. adborth gan deuluoedd/cyngorydd herio/Estyn ar y CDY.
e.e. adnewyddu mynedfa'r ysgol i'w gwneud yn fwy croesawgar	3. Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol	e.e. yr holl deuluoedd, ond gyda ffocws ychwanegol ar deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg/Saesneg gartref/teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr/teuluoedd â lefelau llythrennedd isel ...	e.e. gwaith celf amleithog wedi'i ddylunio gan ddysgwyr, system fynediad well ...	e.e. dysgwyr, gwirfoddolwyr, aelod staff penodol.	e.e. deunyddiau arlunio, hysbysfwrdd newydd, seinwr newydd yn y fynedfa.	e.e. adborth drwy drafodaethau anffurfiol â rhieni/gofalwyr, neu drwy'r gymdeithas rhieni ac athrawon neu holiadur i rieni/gofalwyr.
e.e. prosiect dysgu fel teulu i ddysgwyr sydd ar ei hôl hi o ran rhifedd	4. Helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plentyn	e.e. plant ym Mlynnyddoedd 3 a 4 sydd ar ei hôl hi o ran rhifedd, a'u teuluoedd.	e.e. prosiect dysgu fel teulu sy'n cael ei redeg gyda chymorth a chefnogaeth yr awdurdod lleol. Ymgysylltu â theuluoedd a'u recriwtio i'r rhaglen a fydd yn cynnwys wyth sesiwn ddwy awr.	e.e. swyddog cyswllt â theuluoedd a staff dysgu fel teulu yr awdurdod lleol.	e.e. amser staff ysgol a chyfraniad i brosiect yr awdurdod lleol. Defnyddio Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim).	e.e. adborth gan deuluoedd, asesu sgiliau rhifedd y dysgwr.

1

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd **Thema 1: Adnodd 4** PowerPoint YGaTh



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol ar gael ar ffurf cyflwyniad PowerPoint ar wahân i ysgolion ei addasu a'i ddefnyddio at eu dibenion eu hunain.

Sleid 1: Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd

Sleid 2: Pam gweithio gyda theuluoedd?

Once social and economic factors are removed, parental engagement has a more significant impact on attainment than almost everything else. (Sacker et al 2002)

Family and parent support activities should have the improvement of children's learning as a clear and consistent goal. (Goodall and Vorhaus (2011) *Review of Best Practice in Parental Engagement Practitioners Summary*)

Pam gweithio gyda theuluoedd?

- Ysgogiad cryf i godi cyrhaeddiad.
- Effaith gadarnhaol ar ymddygiad a lles.
- Ysgogiad cryf i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi.
- Addysg yn dechrau yn y cartref.

Sleid 3: Sut gall teuluoedd gefnogi dysgu

Rhai ffyrdd i deuluoedd helpu plant i ddysgu

Cyfnod Sylfaen	Oedran ysgol gynradd 7–11	Oedran ysgol uwchradd
Sgwrsio. Chwarae rhannau. Darllen storïau. Addysgu caneuon. Chwarae â llythrennau a rhifau. Peintio a thynnu llun. Ymweld â'r llyfrgell, amgueddfeydd ac orielau celf. Tripiau yn yr awyr agored.	Dangos diddordeb yn eu gweithgareddau ysgol. Eu helpu i deimlo eu bod yn perthyn yn yr ysgol. Amser gwely rheolaidd, brecwast a phresenoldeb yn yr ysgol. Darllen am 10 munud bob diwrnod. Siarad am 'pa mor fawr/pa faint/pa nifer'. Tripiau i amgueddfeydd, y llyfrgell ac orielau celf.	Cyfleu gwerth addysg. Ymddiddori yn eu gwaith ysgol. Modelu perthnasoedd parchus. Eu cymell i ganolbwyntio ar ddysgu gan gefnogi ymreolaeth hefyd. Amser gwely rheolaidd, brecwast a phresenoldeb yn yr ysgol. Cyfleu dyheadau, dathlu cyflawniadau. Darparu lle tawel i astudio.

Rhai ffyrdd i deuluoedd helpu plant i ddysgu		
Cyfnod Sylfaen	Oedran ysgol gynradd 7–11	Oedran ysgol uwchradd
Cefnogi dysgu cymdeithasol ac emosiynol. Helpu eu plant i fod yn 'barod am yr ysgol'.	Gweithio gyda'r ysgol i helpu'r plentyn ag unrhyw faterion penodol. Cefnogi dysgu cymdeithasol ac emosiynol.	Eu cymell i ddarllen a thrafodaethau cyffredinol. Tripiau i gyrchfannau diwylliannol, gweithgareddau allgwrwclwr. Gweithio gyda'r ysgol i helpu'r plentyn i ddatrys unrhyw faterion penodol. Eu helpu i ddewis cyrsiau/ôl-16.

Sleid 4: Pam gweithio gyda phartneriaid cymunedol?

Extended schools ... strengthen the ability of families and communities to attend to young people's physical, emotional, cognitive and psychological needs. (Coleman (2006) *Lessons from Extended Schools*)

Mae angen pentref gyfan i fagu plentyn. (Dihareb o Affrica)

Pam gweithio gyda phartneriaid cymunedol?

- Cryfhau'r ymgysylltu â theuluoedd, gan arwain at welliant o ran presenoldeb, ymddygiad a chyflawniad.
- Lles a safonau dysgwyr.
- Cryfhau'r ysgol (cefnogaeth, adnoddau, rhwydweithiau).
- Gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned.
- Yn cael ei asesu gan Estyn.

Sleid 5: Sut gall partneriaid cymunedol gefnogi dysgu

Rhai ffyrdd i bartneriaid cymunedol helpu plant i ddysgu		
Helpu i chwalu rhwystrau rhag ymgysylltu â theuluoedd. Rhwydweithio – cysylltiadau â grwpiau a dargedir. Gwella'r arlwy ar gyfer ymgysylltu. Asiantaeth hyd braich yn creu cysylltiad â'r ysgol.	Helpu i ddarparu cefnogaeth i ddysgwyr. Cefnogaeth broffesiynol i ddysgwyr. Cefnogaeth broffesiynol i deuluoedd. Gwella lles dysgwyr. Gwella safonau dysgwyr.	Mwy o ymwneud â'r gymuned. Dysgwyr yn cymryd rhan yn y gymuned. Gweithgareddau allgwricwlar. Helpu i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi. Cwricwlwm cyfoethocach. Ymgynghori â'r gymuned (CDY). Cyfrannu at gydlyniant cymunedol. Cyfrannu at gyfalaf cymdeithasol.

Sleid 6: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Llythrennedd

Tystiolaeth helaeth o'r effaith gadarnhaol o raglenni ymgysylltu â rhieni ar lythrennedd plant.

Mae addysgu rhieni/gofalwyr i addysgu sgiliau darllen i'w plant yn gallu bod ddwywaith yn fwy effeithiol na gofyn iddyn nhw wrando ar eu plant yn darllen.

e.e. prosiect dysgu fel teulu i feithrin sgiliau darllen yn gynnar

e.e. ocsiwn addewidion lle mae tadau'n addo amser i ddarllen i blentyn

e.e. clwb darllen i deuluoedd.

Sleid 7: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Rhifedd

Mae tystiolaeth gadarn bod rhaglenni rhifedd i deuluoedd yn cael effaith gadarnhaol a pharhaus ar ganlyniadau academiaidd plant.

e.e. awgrymu gweithgareddau yn y cartref i rieni/gofalwyr

e.e. logiau dysgu

e.e. prosiectau dysgu fel teulu

e.e. gweithdai 'addysgu'ch plant i ddysgu'.

Sleid 8: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Metawybyddiaeth/Dysgu gweladwy

Drwy gynnwys teuluoedd wrth bennu nodau gyda'u plentyn a'i athro, byddwch yn helpu i'w cynnwys yn nysg eu plentyn, a dylai hyn:

- helpu teuluoedd i gefnogi dysgu yn y cartref
- arwain at gyrhaeddiad uwch.

Sleid 9: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Mynd i'r afael ag effaith tlodi

The achievement of working class pupils could be significantly enhanced if we systematically apply all that is known about parental involvement. (Desforges and Abouchaar (2003) *The impact of parental involvement, parental support and family education on pupil achievement and adjustment*)

Sleid 10: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Atal gostyngiad mewn cyrhaeddiad wrth drosglwyddo

Mae cynnwys y teulu mewn dysgu yn ffactor amddiffynnol – mae cyrhaeddiad yn fwy tebygol o ostwng os na fydd y teulu wedi'i gynnwys.

e.e. ymgysylltu yn ystod y cyfnod pontio ynghylch y ffordd orau o hwyluso'r pontio/cefnogi dysgu yn y cyfnod nesaf

e.e. gweithio amlasiantaethol i adnabod teuluoedd sydd ag angen cefnogaeth ychwanegol yn gynnar.

Sleid 11: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Lles

- Gellir delio'n gyflymach â phryderon plant os oes perthynas gadarnhaol rhwng eu teuluoedd a staff yr ysgol.
- Mae'r dull Tîm o Amgylch y Teulu yn helpu dysgwyr a theuluoedd sy'n wynebu problemau lluosog.

Sleid 12: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Presenoldeb ac ymddygiad

Mae ymgysylltu â theuluoedd yn gallu cael effaith gadarnhaol bwysig drwy feithrin cyd-ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau.

- Mae parch ac ymddiriedaeth o'r ddwy ochr yn ffactor allweddol.
- Gweithio fel partneriaid i helpu plentyn i ddatrys materion penodol.
- Strategaethau i ymgysylltu â theuluoedd dysgwyr sydd wedi ymddieithrio.

Cafodd Ofsted (2008) fod perthynas agos â rhieni/gofalwyr yn hanfodol ar gyfer ailgysylltu â dysgwyr a oedd wedi dadrithio yn yr ysgol uwchradd.

Sleid 13: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Bwlio

- Y rôl bwysig sydd gan deuluoedd wrth ddatblygu strategaeth i ddelio â bwlio.
- Mwy o allu i ddatrys problemau os yw teuluoedd yn cymryd rhan.

Sleid 14: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Anghenion dysgu ychwanegol

Cefnogi teuluoedd er mwyn cefnogi dysgwyr

Support families to support learners.

e.e. gweithdai teuluol i feithrin sgiliau rhieni/gofalwyr (e.e. iaith arwyddion, PECS)

e.e. gweithdai teuluol i feithrin sgiliau byw'n annibynnol

e.e. cefnogaeth anffurfiol i deuluoedd (rhwydweithio mewn bore coffi).

Sleid 15: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Tîm o Amgylch y Teulu

Hybu lles dysgwyr a theuluoedd a helpu i chwalu rhwystrau i ddysgu.

- Gwella presenoldeb.
- Gwella ymddygiad.
- Llai o wahardd.
- Llai o berygl o fod yn NEET.

Sleid 16: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Cydlyniant cymunedol

- Sicrhau bod croeso i'n holl deuluoedd.
- Partneriaid cymunedol yn ein helpu i ddathlu amrywiaeth.

Sleid 17: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Cynnwys y gymuned

- Cyflawni blaenoriaethau ar gyfer cynnwys y gymuned.
- Cyfoethogi'r cwricwlwm.
- Datblygu prosiectau seiliedig ar y cwricwlwm gyda phartneriaid allanol i helpu i ailgysylltu â dysgwyr sydd wedi ymddieithrio.

Sleid 18: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Cyfalf cymdeithasol yn ein cymuned

Helpu oedolion/rhieni/gofalwyr yn ein cymuned i feithrin eu sgiliau, eu hyder a'u rhwydweithiau.

e.e. prosiectau dysgu fel teulu i feithrin sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol rhieni/gofalwyr

e.e. dosbarthiadau dysgu cymunedol i oedolion ar safle'r ysgol

e.e. cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol.

Sleid 19: Beth allai ei wneud i'n hysgol ni?

Lles staff

Drwy ddull ysgol gyfan o ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd, dylen ni allu:

- delio'n fwy effeithiol â gwrthdaro a chwynion a gostwng nifer yr achosion o ymddygiad difriol tuag at staff
- gwneud nosweithiau rhieni'n fwy buddiol
- creu mwy o ymdeimlad o gydlyniant a pherthyn rhwng yr ysgol, teuluoedd a'r gymuned
- gwella presenoldeb, ymddygiad a chyflawniadau'r dysgwyr
- dod o hyd i gefnogaeth broffesiynol allanol i gwrdd ag anghenion teuluoedd a dysgwyr.

Sleid 20: Crynodeb

Mae strategaethau ymgysylltu da ...

- Yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y gellir ei gael gan deuluoedd a phartneriaid yn y gymuned.
- Yn cynnwys yr ysgol gyfan.
- Yn deillio o werthoedd diwylliannol teuluoedd/cymunedau ac yn eu meithrin.
- Wedi'u seilio ar ddealltwriaeth o rwystrau.
- Yn rhoi pwys ar gysylltiadau personol, yn meithrin cyfathrebu a pharch ac ymddiriedaeth o'r ddwy ochr.

Pecyn cymorth YGaTh: wynebu'r her gyda'n gilydd

Fframwaith â phum thema:

1. Arweinyddiaeth.
2. Dull ysgol gyfan.
3. Croesawu teuluoedd.
4. Ymgysylltu er mwyn dysgu.
5. Partneriaethau cymunedol, gweithio amlasiantaethol.

Sleid 21: Sleid i gloi

Y camau nesaf

- Aelod o'r UDA.
- Llywodraethwr.
- Gweithio drwy'r pecyn cymorth.
- Blaenoriaethau → cynllun datblygu ysgol.
- Rolau/datblygiad proffesiynol.
- Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion.
- Cydweithio rhwng ysgolion.

1

**Pecyn cymorth ymgysylltu
â'r gymuned a theuluoedd**
Thema 1: Adnodd 5
Offeryn archwiliad uwch



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal ymarfer archwilio a chynllunio ynghylch YGaTh. (Mae wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gyda'ch cynghorydd herio, er y gallech fod am ei ddefnyddio gyda'ch uwch dîm arwain, llywodraethwyr, a/neu gynrychiolwyr rhieni/gofalwyr.)
- Offeryn archwilio.
- Offeryn cynllunio.

Cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal ymarfer archwilio a chynllunio ynghylch YGaTh

Pwrpas: gwerthuso pa mor llwyddiannus ydych chi o ran YGaTh, a myfyrio ynghylch lle rydych chi am gyrraedd nesaf. Dylid cynnwys hyn ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol a datblygu'r cynllun datblygu ysgol.

Pwy i'w gynnwys: arweinydd/arweinwyr ysgol, llywodraethwyr, cyngorwyr herio ac efallai rhieni/gofalwyr a rhanddeiliaid eraill.

Cam 1

Gan ddilyn y templed (neu amrywiad arno), ystyriwch lle rydych chi arni ar hyn o bryd mewn perthynas â'r fframwaith YGaTh. Ar gyfer pob dangosydd, nodwch y lle ar y raddfa 0–4 sy'n dangos orau lle rydych chi ar hyn o bryd (neu nodwch ei fod yn amherthnasol).

- 0 = **Dim gweithgarwch:** Nid yw'r ysgol yn ystyried yr ymyrraeth hon.
- 1 = **Cyfnod cychwyn:** Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r ymyrraeth hon ond nid yw wedi dechrau cynllunio ar gyfer ei gweithredu.
- 2 = **Cyfnod cynllunio:** Mae'r ysgol yn dilyn proses cynllunio i gytuno ar y camau sydd eu hangen i symud ymlaen.
- 3 = **Cyfnod gweithredu:** Mae'r ysgol wedi gorffen cynllunio ac mae wrthi'n gweithredu strategaethau.
- 4 = **Cyfnod cynnal:** Mae strategaethau wedi'u gweithredu'n llawn. Mae'r ysgol yn eu rheoli i'w cynnal ac i wneud mwy o gynnydd ar y dangosydd hwn.

Cam 2

Meddyliwch am eich gweithgarwch presennol ar gyfer pob dangosydd, ystyriwch y dystiolaeth sydd gennych ynghylch a yw'r gweithgarwch yn cael effaith/gwneud gwahaniaeth. Rhowch sgôr am bob dangosydd drwy roi '?' (effaith anhysbys) neu ar raddfa rhwng -3 (effaith negyddol iawn) a +3 (effaith gadarnhaol iawn).

Cam 3

Cytunwch a fydd gweithgaredd newydd/gwahanol yn flaenoriaeth ar gyfer gweithredu gan yr ysgol yn y cyfnod cynllunio nesaf (uchel, canolig, isel).

Gallech chi ystyried y canlynol.

- A yw'r mater hwn yn rhwystro ymgysylltu â'r ysgol/ymgysylltu â dysgu?

- Pa wahaniaeth y byddai gweithredu ar y dangosydd hwn yn ei wneud i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a'r ysgol?
- A allai gweithredu yn y maes hwn helpu'r ysgol i gyflawni ei blaenoriaethau eraill?
- Pa mor bwysig fyddai'r cam gweithredu hwn yng nghyd-destun blaenoriaethau'r ysgol?
- Pa adnoddau/gwaith meithrin gallu sydd eu hangen i gymryd y cam hwn? A oes lle i gredu y bydd y rhain ar gael?

Cam 4

Myfyriwch yn fwy cyffredinol ar y darlun sy'n datblygu – pa rai yw'r meysydd cryf? Ble mae'r bylchau?

A oes angen gweithgareddau mwy strategol i ddatblygu meysydd gwan, er enghraifft drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus? Meithrin gallu staff?


Cam 5

Efallai y byddwch chi am gofnodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn yr offeryn cynllunio sydd wedi'i ddarparu; mae'n cynnwys lle i nodi'r gweithgaredd, y gynulleidfa arfaethedig, adnoddau a chynlluniau ar gyfer gwerthuso.

Ac eto!

O dan y cylch cynllunio, cynhaliwch yr ymarfer hwn eto ymhen 6 i 12 mis i asesu'r cynnydd sydd wedi'i wneud a gwerthuso'ch strategaeth i weld a oedd wedi gweithio.

Cylch cynllunio



Sylwer: Archwiliad camau cyntaf syml (Thema 1: Adnodd 3) ar gael yn y pecyn cymorth hwn hefyd, i'w ddefnyddio yn ystod ymarfer gyda staff, llywodraethwyr a'r gymdeithas rhieni ac athrawon.

Mae adnodd **Gwerthuso** (Thema 1: Adnodd 6) yn y pecyn cymorth hwn hefyd.

Offeryn archwilio

Y dangosyddion oren yw'r rheini sydd wedi'u nodi o dan y disgrifiad 'Dylai pob ysgol ...' yn y brif ddogfen ganllaw. Mae'r dangosyddion gwyrdd wedi'u nodi o dan y disgrifiad 'Mewn ysgolion llwyddiannus ...'. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys adnoddau ymarferol i helpu ysgolion i ddatblygu'r meysydd o dan bob dangosydd.

Thema	Dangosydd	Cynnydd presennol (0–4)	Effaith bresennol (-3 i +3)	Blaenoriaeth		
				U	C	I
1. Arweinyddiaeth ar gyfer system sy'n ei gwella ei hun	Mae aelod penodol o'r uwch dîm arwain yn gyfrifol am YGaTh, ac mae'n bosibl bod llywodraethwr penodol hefyd yn gyfrifol ar gyfer yr agenda hwn.					
	Mae cyfeiriad clir at YGaTh yn y CDY.					
	Mae YGaTh yn cael ei hyrwyddo ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.					
	Ymgynghorir â theuluoedd/grwpiau cymunedol ynghylch y CDY.					
	Mae targedau ar gyfer YGaTh yn y CDY.					
	Mae cylch cynllunio ar waith i gynnal system sy'n ei gwella ei hun mewn perthynas ag YGaTh.					
2. Sefydlu dull ysgol gyfan o YGaTh	Hyrwyddir ymwybyddiaeth staff o bwysigrwydd YGaTh drwy ddiwrnodau HMS a/neu eitemau sefydlog ar agendâu a/neu dîm YGaTh pwrpasol.					
	Mae datblygiad proffesiynol parhaus hanfodol ar gyfer YGaTh wedi'i gwblhau (e.e. ar ddiogelu plant a delio â rhyngweithio un i un â rhieni/gofalwyr anodd).					
	Cwblhawyd dadansoddiad o anghenion datblygu ar gyfer yr holl staff mewn perthynas â gweithgareddau YGaTh.					
	Mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a bennwyd drwy'r dadansoddiad o anghenion datblygu wedi'u darparu/cwblhau.					

Thema	Dangosydd	Cynnydd presennol (0–4)	Effaith bresennol (-3 i +3)	Blaenoriaeth		
				U	C	I
2. Sefydlu dull ysgol gyfan o YGaTh	Cynigir hyfforddiant i lywodraethwyr ac aelodau o gymdeithas rhieni ac athrawon/grŵp rhieni/gofalwyr.					
	Defnyddir dysgu rhwng ysgolion i gynyddu capasiti ar gyfer YGaTh (drwy grwpiau buddiant arbennig, clystyrau, teuluoedd o ysgolion, ac ati).					
	Mae aelod staff nad yw'n addysgu wedi'i benodi i gynnal y dull ysgol gyfan ac arwain ar agweddau penodol (e.e. presenoldeb, gweithio gyda grwpiau penodol o deuluoedd) (enw arall arno yw swyddog ymgysylltu â theuluoedd/swyddog cyswllt/gweithiwr cymorth bugeiliol).					
	Mae tîm YGaTh yn arwain dull ysgol gyfan, gyda chynrychiolwyr o'r llywodraethwyr, staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu, rhieni/gofalwyr ac efallai o gorff myfyrwyr.					
	Mae gweithiwr allweddol wedi'i ddynodi ar gyfer pob dysgwr/teulu – yn enwedig ar gyfer teuluoedd y mae'r ysgol wedi'i chael yn anodd ymgysylltu â nhw gynt.					
3. Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol	Mae mynedfa'r ysgol yn groesawgar i deuluoedd.					
	Mae lle yn yr ysgol sydd ar gael i'w ddefnyddio bob amser/weithiau gan rieni/gofalwyr (lle ar gyfer te a choffi mewn neuadd neu ystafell TG efallai).					
	Mae staff ar gael i ymgysylltu â theuluoedd wrth gât yr ysgol/ar adegau codi a gollwng plant yn yr ysgol.					
	Defnyddir amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, llythyrau, nosweithiau rhieni/gofalwyr, digwyddiadau cymdeithasol).					

Thema	Dangosydd	Cynnydd presennol (0–4)	Effaith bresennol (-3 i +3)	Blaenoriaeth		
				U	C	I
3. Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol	Mae'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddir yn cyd-fynd â dewisiadau rhieni/gofalwyr.					
	Defnyddir rhith-amgylcheddau dysgu (e.e. Hwb, Moodle, ac ati) i hyrwyddo cynnwys teuluoedd yn y dysgu.					
	Mae athrawon ar gael i ymwneud â theuluoedd/gofalwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd anffurfiol o ddydd i ddydd.					
	Gwneir ymdrech i ddod i adnabod teuluoedd o gwmpas pwyntiau trosglwyddo (e.e. sesiynau cwrdd â'r athro/athrawes, rhannu data rhwng lleoliadau ysgol neu athrawon dosbarth, ymweld â chartref rhai teuluoedd).					
	Mae gan yr ysgol wybodaeth fanwl am ei theuluoedd, eu hanghenion, graddau eu hymgysylltu â dysgu, a beth y gallent ei gyfrannu i'r ysgol.					
	Mae'r dull ymgysylltu wedi'i deilwra i chwalu rhwystrau i ymgysylltu ac yn ôl anghenion teuluoedd penodol (e.e. drwy ddarparu cyfleusterau cyfieithu, cludiant, amseroedd gwahanol ar gyfer nosweithiau rhieni/gofalwyr).					
	Gwneir ymdrech neilltuo i ymgysylltu â rhai grwpiau, e.e. teuluoedd i ddysgwyr sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dysgwyr sy'n tanberfformio ar hyn o bryd/nad ydynt yn cael fawr o gefnogaeth i ddysgu gartref, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.					
	Croesewir aelodau o'r teulu ehangach (neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd hŷn).					

Thema	Dangosydd	Cynnydd presennol (0–4)	Effaith bresennol (-3 i +3)	Blaenoriaeth		
				U	C	I
3. Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol	Trefnir amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol cynhwysol, lle nad yw costau'n rhy uchel.					
	Mae teuluoedd yn gallu cymryd rhan drwy amrywiaeth o ffyrdd/ar wahanol lefelau, gan gynnwys cyfleoedd i wirfoddoli a chyfleoedd i oedolion feithrin eu sgiliau eu hunain.					
	Mae'r ysgol yn gwahodd rhieni/gofalwyr i ddod i'r ysgol i rannu eu diddordebau a'u sgiliau ac yn ymhelaethu ar y pynciau hyn yn ystod amser dosbarth.					
	Anogir dysgwyr i chwarae rhan wrth gymell eu rhieni/gofalwyr i gymryd rhan.					
	Mae ffordd hwylus i rieni a gofalwyr fynegi eu barn ac ymateb i ymgynghori ar faterion penodol.					
	Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon neu grŵp rhieni/gofalwyr arall wedi'i rymuso a'i gefnogi i ehangu ei gylch gwaith ymhellach na chodi arian i gynnwys YGaTh neu ddarparu cyfrwng i ymgynghori â theuluoedd.					
	Mae polisi ysgol clir ar waith ynghylch delio â chwynion fel bod staff a rhieni/gofalwyr yn gallu datrys materion gyda'i gilydd, gyda chefnogaeth os oes angen.					
4. Helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plentyn	Mewn nosweithiau rhieni/gofalwyr mae staff yn darparu adborth o ansawdd da ar gynnydd y dysgwr mewn ffordd y mae rhieni/gofalwyr yn gallu ei deall.					
	Mae rhieni/gofalwyr nad ydynt yn byw gyda'u plant (e.e. oherwydd gwahanu) yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr hyn sy'n digwydd ar gyfer eu plentyn.					

Thema	Dangosydd	Cynnydd presennol (0–4)	Effaith bresennol (-3 i +3)	Blaenoriaeth		
				U	C	I
4. Helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plentyn	Defnyddir nosweithiau rhieni/gofalwyr i annog teuluoedd i gefnogi dysgu.					
	Mae'r ysgol yn cynnal 'nosweithiau gosod nodau' ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd.					
	Mae fformat trafodaethau un i un â rhieni/gofalwyr wedi'i seilio ar asesiad o anghenion teuluoedd.					
	Anogir teuluoedd i gefnogi dysgu drwy ddulliau ychwanegol (e.e. gwefan, gwaith cartref, sachau stori).					
	Mae'r ysgol yn ffurfio cysylltiadau â'r ymgyrch 'Mae addysg yn dechrau yn y cartref', gan gynnwys cyfeirio rhieni/gofalwyr at wefan gwybodaeth Llywodraeth Cymru i rieni/gofalwyr.					
	Mae cyfathrebu da rhwng y cartref a'r ysgol ynghylch beth mae'r plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.					
	Mae staff a theuluoedd yn delio â phryderon/materion penodol sy'n ymwneud â dysgu gyda'i gilydd.					
	Mae ymyraethau dysgu fel teulu ar waith (ac wedi'u gwerthuso) yn enwedig ar gyfer dysgwyr sydd â rhieni/gofalwyr nad ydynt yn rhoi llawer o gefnogaeth, neu sydd â lefelau isel o lythrennedd/rhifedd eu hunain, neu sydd ag angen penodol i gael cefnogaeth gan eu teulu i ddatrys anawsterau neu chwalu rhwystrau sy'n ymwneud â'u dysgu.					
	Mae ymyraethau dysgu fel teulu yn hwyluso dysgu gan oedolion (yn enwedig sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol sylfaenol) ac yn cymhell oedolion i barhau â'u dysgu.					

Thema	Dangosydd	Cynnydd presennol (0–4)	Effaith bresennol (-3 i +3)	Blaenoriaeth		
				U	C	I
4. Helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plentyn	Darperir cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr y mae'n ymddangos nad ydynt yn cael llawer o gefnogaeth i ddysgu gan eu teulu (e.e. clybiau gwaith cartref, gweithiwr arweiniol).					
5. Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol	Mae staff wedi'u hyfforddi'n dda ar faterion diogelu plant.					
	Mae'r ysgol yn defnyddio gweithio amlasiantaethol i gefnogi teuluoedd sy'n wynebu llu o broblemau, gan wneud defnydd effeithiol o'r prosesau atgyfeirio o dan y dull Tîm o Amgylch y Teulu.					
	Mae rhieni/gofalwyr yn cael gwybodaeth gan yr ysgol am amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau sydd ar gael yn y gymuned, gan gynnwys cyfleoedd dysgu i oedolion (gan gynnwys drwy ddolenni ar wefan yr ysgol i'r gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd).					
	Mae'r ysgol yn cael gafael ar help ychwanegol i deuluoedd sydd â'i angen oddi wrth amrywiaeth o wasanaethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, therapi iaith a lleferydd, iechyd, seicolegwyr addysgol.					
	Mae perthnasoedd effeithiol â lleoliadau y mae plant yn trosglwyddo ohonynt ac iddynt i hwyluso trosglwyddo a nodi a chynllunio ar gyfer unrhyw faterion sy'n effeithio ar ddysgwyr unigol sy'n cael eu derbyn. Gofynnir i deuluoedd am adborth ynghylch yr hyn a oedd yn ddefnyddiol iddynt.					

Thema	Dangosydd	Cynnydd presennol (0–4)	Effaith bresennol (-3 i +3)	Blaenoriaeth		
				U	C	I
5. Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol	Rhennir gwybodaeth rhwng lleoliadau addysgol drwy ddilyn protocolau priodol ar gyfer diogelu data.					
	Mae rhai partneriaethau cymunedol wedi'u datblygu.					
	Mae'r ysgol yn ymwneud mewn ffordd strategol â phartneriaethau cymunedol (cynllunio, cytuno ar ganlyniadau, rhannu adnoddau, gwerthuso'r effaith).					
	Mae partneriaid cymunedol yn helpu'r ysgol â'i gwaith ymgysylltu â theuluoedd, gan wella'r 'arlwy' mewn digwyddiadau ymgysylltu â theuluoedd, neu drwy helpu ysgolion i ymgysylltu â theuluoedd y mae'n ei chael yn anodd eu cyrraedd.					
	Mae'r ysgol yn cadw cyfeiriadur o bartneriaid allweddol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.					
	Mae siopau a busnesau lleol yn cefnogi digwyddiadau codi arian.					
	Mae siopau a busnesau lleol yn cynnig ymweliadau neu leoliadau gwaith.					
	Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol pwysig.					
	Mae'r ysgol wedi creu perthnasoedd â'r prif grwpiau cymunedol yn yr ardal, gan gynnwys grwpiau ffydd.					

Thema	Dangosydd	Cynnydd presennol (0–4)	Effaith bresennol (-3 i +3)	Blaenoriaeth		
				U	C	I
5. Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol	Mae'r ysgol yn cynnal rhai o'i gweithgareddau a rhai gweithgareddau ymgysylltu â theuluoedd mewn canolfannau cymunedol eraill (canolfannau hamdden, theatrau ac amgueddfeydd, ac ati).					
	Mae cyfleusterau'r ysgol yn cael eu defnyddio (yn ystod neu y tu allan i oriau ysgol) gan grwpiau lleol, megis dosbarthiadau dysgu oedolion yn y gymuned.					
	Lle bo modd, mae rhai gwasanaethau cymunedol wedi'u lleoli ar safle'r ysgol er mwyn gallu eu cyrraedd yn haws a gwneud yr ysgol yn ganolbwynt i'r gymuned (e.e. crèche, Dechrau'n Deg, Undebau Credyd, Cyngor ar Bopeth neu Cymunedau yn Gyntaf).					

Gweithgaredd	Thema	Pa grŵp/grwpiau a dargedir drwy'r gweithgaredd ymgysylltu hwn?	Beth fydd yn ei gynnwys	Pwy fydd yn ei weithredu?	Adnoddau sydd eu hangen	Sut y bydd yr effaith yn cael ei mesur?
e.e. ailddrafftio'r CDY i gynnwys YGaTh	1. Arweinydd-iaeth ar gyfer system sy'n ei gwella ei hun	e.e. yr holl deuluoedd, ond gyda ffocws ychwanegol ar deuluoedd dysgwyr sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim/dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)/teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ...	e.e. un cyfarfod i drafod newidiadau posibl a phroses ymgynghori digwyddiad ymgynghori gyda theuluoedd.	e.e. pennaeth, llywodraethwyr, yr uwch dîm arwain.	e.e. pedwar diwrnod o amser staff (i drefnu cyfarfodydd a digwyddiad ymgynghori), te a choffi yn y digwyddiad ymgynghori.	e.e. adborth gan deuluoedd/cynghorydd herio/Estyn ar y CDY.
e.e. adnewyddu mynedfa'r ysgol i'w gwneud yn fwy croesawgar	3. Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol	e.e. yr holl deuluoedd, ond gyda ffocws ychwanegol ar deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg/Saesneg gartref/teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr/teuluoedd â lefelau llythrennedd isel ...	e.e. gwaith celf amlieithog wedi'i ddylunio gan ddysgwyr, system fynediad well ...	e.e. dysgwyr, gwirfoddolwyr, aelod staff penodol.	e.e. deunyddiau arlunio, hysbysfwrdd newydd, seiniwr newydd yn y fynedfa.	e.e. adborth drwy drafodaethau anffurfiol â rhieni/gofalwyr, neu drwy'r gymdeithas rhieni ac athrawon neu holiadur i rieni/gofalwyr.
e.e. prosiect dysgu fel teulu sy'n ddisgwyr sy'n gwneud cynnydd araf mewn rhifedd	4. Helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plentyn	e.e. plant ym Mlynnyddoedd 3 a 4 sy'n gwneud cynnydd araf mewn rhifedd, a'u teuluoedd.	e.e. prosiect dysgu fel teulu sy'n cael ei redeg gyda chymorth a chefnogaeth yr awdurdod lleol. Ymgysylltu â theuluoedd a'u recriwtio i'r rhaglen a fydd yn cynnwys wyth sesiwn ddwy awr.	e.e. swyddog cyswllt â theuluoedd a staff dysgu fel teulu yr awdurdod lleol.	e.e. amser staff ysgol a chyfraniad i brosiect yr awdurdod lleol. Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.	e.e. adborth gan deuluoedd, asesu sgiliau rhifedd y dysgwr.

1

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd Thema 1: Adnodd 6 Gwerthuso



Gwerthuso

Mae gwerthuso'n helpu ysgolion i ddysgu a gwella drwy'r amser, gan addasu eu hymyriadau ar sail yr hyn y gellir dangos ei fod yn llwyddo neu'n methu ar gyfer eu dysgwyr yng nghyd-destun eu hysgol eu hunain.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn argymhell bod ysgolion yn gwerthuso'r gweithgareddau ymgysylltu y maent wedi'u cyflwyno er mwyn asesu a ydynt yn cael yr effaith arfaethedig.

Gellir casglu a monitro data ar yr agweddau canlynol ar ymyrraethau¹.

- Cyrhaeddiad plant a deilliannau sy'n ymwneud â dysgu.
- Deilliannau o ran ymddygiad a lles plant.
- Proffil demograffig y rhieni/gofalwyr.
- Agweddau rhieni at addysg a phresenoldeb rhieni.
- Rhwystrau rhag ymgysylltu â rhieni.

Mae canllaw hunanwerthuso'r Education Endowment Foundation

www.educationendowmentfoundation.org.uk/evaluation/diy-evaluation-guide (Saesneg yn unig) yn adnodd ar gyfer athrawon ac ysgolion sy'n egluro prif egwyddorion gwerthuso addysgol ac yn cynnig cyngor ymarferol ar gynllunio a chynnal gwerthusiadau ar raddfa fach mewn ysgolion.

Mae'n darparu cyngor syml ar sut i gwblhau'r wyth cam sy'n angenrheidiol ar gyfer hunanwerthuso.

Cyfnod 1: Paratoi	
Cam	Disgrifiad
1. Geirio'ch cwestiwn gwerthuso	Dyma'r cwestiwn y bydd eich gwerthusiad yn ceisio ei ateb.
2. Penderfynu ar eich dull mesur	Byddwch yn defnyddio hwn i asesu a yw dull penodol wedi llwyddo ai peidio. Er enghraifft, profion safonedig ar ddarllen, ysgrifennu, mathemateg neu wyddoniaeth.
3. Penderfynu ar eich grŵp cymharu	Er mwyn deall beth fyddai wedi digwydd i'r dysgwyr pe na byddech chi wedi cyflwyno'r dull newydd o weithredu. Er enghraifft, gallech eu cymharu â dysgwyr yn yr un dosbarth neu mewn dosbarth gwahanol.

¹ Goodall a Vorhaus (2011) *Review of Best Practice in Parental Engagement Practitioners Summary*, Adran Addysg (Lloegr).

Cyfnod 2: Gweithredu

4. Cynnal rhagbrawf	Er mwyn canfod man cychwyn y dysgwyr cyn mesur y deilliannau neu ffurfio'r grwpiau mewn cynlluniau 'grwpiau tebyg'. Dylai'r dysgwyr yn eich grŵp ymyrryd a'ch grŵp cymharu ddechrau ar yr un pwynt.
5. Cyflawni'r ymyrraeth	Cyflawni'r ymyrraeth fel y cafodd ei chynllunio a chofnodi'n union beth a ddigwyddodd. Dylech sicrhau nad yw'ch grŵp cymharu'n cael yr ymyrraeth.
6. Cynnal ôl-brawf	Er mwyn deall effaith yr ymyrraeth ar ôl mesur y deilliannau. Dylech gynnal yr ôl-brawf yr un pryd ar y grŵp ymyrryd a'r grŵp cymharu.

Cyfnod 3: Dadansoddi a chofnodi

7. Dadansoddi a dehongli	Cofnodi'r canlyniadau ar daenlen ac wedyn cyfrifo'r effaith ar gyrhaeddiad.
8. Cofnodi'r canlyniadau	Mae'n bwysig cofnodi'r canlyniadau'n glir, e.e. mewn cyflwyniad PowerPoint.

1

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd Thema 1: Adnodd 7 Arolygiadau Estyn ac YGaTh



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Cyflwyniad.
- Tabl 1: Lle mae YGaTh wedi'i nodi yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r llawlyfrau hunanarfarnu.
- Tabl 2: Sut y mae gwahanol themâu'r pecyn cymorth hwn yn cael eu nodi yn ystod arolygiadau Estyn.

Cyflwyniad

"Fel proses broffesiynol fyfyrion, mae hunanarfarnu yn galluogi ysgolion i ddod i adnabod eu hunain yn well, nodi'u agenda ar gyfer gwella a hyrwyddo arloesedd ac arfer sy'n arwain y sector."

Canllawiau Hunanarfarnu Estyn ar gyfer Ysgolion 2014

Mae llawlyfrau arweiniad Estyn ar arolygu ar gael drwy'r dolenni canlynol.

www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/arweiniad-arolygu/ysgolion-cynradd

www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/arweiniad-arolygu/ysgolion-uwchradd

www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/arweiniad-arolygu/ysgolion-arbennig

www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/arweiniad-arolygu/unedau-cyfeirio-disgyblion

Adran 3.3 o Fframwaith Arolygu Cyffredin 2010 (Gweithio mewn Partneriaeth) yw'r prif faes lle y mae ysgolion yn cael eu harolygu ar eu hymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd. Fodd bynnag, mae YGaTh yn cael ei nodi hefyd mewn nifer o leoedd eraill yn Fframwaith Arolygu Cyffredin 2010 (FfAC) a hefyd yn y llawlyfrau arweiniad ar hunanarfarnu i ysgolion 2014.

Ni ddylai ysgolion edrych ar y gweithgarwch hwn fel ymarfer ticio blychau. Yn hytrach, dylent werthuso ansawdd eu hymgysylltu a pha mor dda yw eu hymgysylltu o ran gwella'r ddarpariaeth a deilliannau dysgu ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd.

Mae'r ddau dabl canlynol yn dangos y meysydd hyn er mwyn helpu ysgolion i wneud hunanwerthusiad cywir o'u hymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd. Mae'r ddau dabl yn cynnwys gwybodaeth debyg, ond mae'r tabl cyntaf yn dilyn adrannau'r FfAC ac mae'r ail wedi'i drefnu ar sail y pum thema yn y pecyn cymorth YGaTh.

Tabl 1: Lle mae YGaTh wedi'i nodi yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r llawlyfrau hunanarfarnu

Adran y FfAC	Beth mae llawlyfrau arweiniad Estyn ar hunanarfarnu yn ei ddweud am YGaTh	Cysylltiadau â phhecyn cymorth YGaTh
1.2.3 Ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau	'Dylem arfarnu'r graddau y mae disgyblion, gan gynnwys y rhai o grwpiau gwahanol, yn ymgymryd â chyfrifoldebau, ac yn cymryd rhan yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.' C: Pa mor aml y mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned y tu allan i'r ysgol, neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau codi arian i elusennau?	Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol
2.1.1 Diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr/ y gymuned	'Dylem hefyd edrych ar natur a graddau dysgu y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys chwaraeon, clybiau, ymweliadau, digwyddiadau arbennig, cysylltiadau â'r gymuned a gweithgareddau allgyrsiol eraill. Mae'n bwysig ystyried pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r rhain a sut maent yn cydlynu â chynllunio cwricwlwm prif ffrwd.' C: Ysgolion cynradd: A yw cyfranogiad cymunedol yn rhan o'r dysgu yn ein cwricwlwm? C: Lleoliadau eraill: A yw profiad â ffocws gwaith a chyfranogiad cymunedol yn rhan o'r craidd dysgu yn ein cwricwlwm?	Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol
2.2.2 Asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu	C: A yw rhieni/gofalwyr yn deall gweithdrefnau asesu ac yn cael gweld cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â'u plant? C: A ydyn ni'n annog rhieni/gofalwyr i ymateb i adroddiadau ar gynnydd?	Thema 4: Helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plentyn
2.3.1 Darpariaeth ar gyfer iechyd a lles, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol	C: A ydyn ni'n ystyried barn y disgyblion a'r rhieni/gofalwyr yn ddigon aml? C: Pa mor dda ydyn ni'n rhoi ein polisi gwrthfwllo ar waith a pha mor ymwybodol yw pob un o'n staff, ein disgyblion a'n rhieni o'r polisi hwn? C: Pa mor dda y mae gan bob un o'r disgyblion, rhieni/gofalwyr ac athrawon ddealltwriaeth glir o bolisiau i hyrwyddo ymddygiad da ac atal gwaharddiadau, a pha mor gyson y cânt eu cymhwyso? C: A ydyn ni'n annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd a datblygu dealltwriaeth o fyw mewn cymuned? C: A ydyn ni'n cyfrannu'n dda at y gymuned leol, gan gynnwys trwy weithgareddau allgyrsiol rheolaidd?	Thema 3: Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol

Adran y FfAC	Beth mae llawlyfrau arweiniad Estyn ar hunanarfarnu yn ei ddweud am YGaTh	Cysylltiadau â phhecyn cymorth YGaTh
2.3.2 Gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol	C: A ydyn ni'n galluogi disgyblion i ddefnyddio cymorth proffesiynol oddi mewn i'r ysgol a chan wasanaethau arbenigol? C: A ydyn ni'n cysylltu'n effeithiol ag asiantaethau arbenigol fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd, seicolegol, cwnsela a gwasanaethau cymdeithasol? C: (Ac eithrio ysgolion cynradd) A yw ansawdd yr arweiniad a'r cyngor yn helpu disgyblion, myfyrwyr a rhieni/gofalwyr i wneud dewisiadau ynglŷn â chysiau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, a pan fo dewisiadau ar gael, yng nghyfnod allweddol 3? C: A yw ansawdd y wybodaeth a ddarperir i ddisgyblion a rhieni/gofalwyr yn llawlyfrau'r ysgol a deunyddiau eraill yn darparu arweiniad priodol?	Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol Thema 4: Helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plentyn
2.3.4 Anghenion dysgu ychwanegol	C: A ydyn ni'n ymgynghori'n rheolaidd â rhieni? C: A ydyn ni'n arfarnu digonolrwydd a defnyddioldeb y cyfraniadau gan gynorthwyywyr cymorth dysgu, athrawon cymorth, seicolegwyr addysgol, arbenigwyr meddygol, parafeddygol a nyrsio ac asiantaethau allanol eraill?	Thema 3: Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol
2.4.1 Ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth	C: A ydyn ni wedi sefydlu ethos ysgol sy'n gynhwysol ac sy'n cyfrannu at gydlyniant cymunedol?	Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol
3.2.1 Hunanarfarnu gan gynnwys gwranddo ar ddysgwyr ac eraill	C: A ydyn ni'n ystyried barn ein staff, rhieni/gofalwyr a rhanddeiliaid eraill?	Thema 3: Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol

Adran y FfAC	Beth mae llawlyfrau arweiniad Estyn ar hunanarfarnu yn ei ddweud am YGaTh	Cysylltiadau â phhecyn cymorth YGaTh
3.3 Gweithio mewn partneriaeth	‘Rydym i gyd yn rhannu’r nod o weithio mewn partneriaeth er mwyn gwella darpariaeth, safonau a lles. I fod yn effeithiol wrth weithio gydag eraill, mae angen i ysgolion: • fod yn berthnasol i’n cymuned leol ac i fywydau plant a phobl ifanc y tu allan i’r ysgol a thu hwnt i oriau ysgol; • ymgysylltu â theuluoedd a’r gymuned ehangach, gan gynnwys busnesau, asiantaethau allanol a’r sector gwirfoddol; a • gweithio mewn ffordd gydgyssylltiedig gyda darparwyr ac asiantaethau eraill i wella safonau a lles disgyblion unigol.’ • ‘Ar gyfer [ysgolion] yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, mae’r ffocws cymunedol yn arbennig o bwysig. Dyma le gall [ysgolion] chwarae rhan bwysig i ddarparu’r profiadau a’r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion mewn ardaloedd mwy ffyniannus. Ni all [ysgolion] ar eu pennau’u hunain dorri’r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawniad. Mae ymchwil yn pwysleisio’r angen am ddulliau integredig a dulliau â sail eang sy’n golygu nifer o asiantaethau yn gweithio gyda’i gilydd. Ni ddylem gollu golwg ar y nod o weithio mewn partneriaeth. Ni wneir hyn er ei fwyn ei hun nac i ymateb i ofynion allanol. Dylai arwain at well darpariaeth a safonau a lles gwell. Prawf unrhyw agwedd ar weithio mewn partneriaeth yw a all gael effaith glir a buddiol y gellir ei dangos ar ddisgyblion. Mae angen i ni ystyried pa mor dda y mae ein hysgol yn cydweithredu â phartneriaid i gyflwyno rhaglenni a dewisiadau cydlynus. I wneud hyn, mae angen i’r [ysgol] gael strwythurau a phrosesau effeithiol ar waith sy’n cyfrannu’n dda at arferion gweithio ar y cyd. Dylem ystyried sut mae ein staff yn gweithio gyda phartneriaid i gynllunio, rheoli a sicrhau ansawdd darpariaeth, er enghraifft, drwy gydgyfrannu ein cyllid a’n hadnoddau.’ (Ac eithrio) ‘Wrth ystyried y cynllunio a’r ddarpariaeth ar gyfer addysg 14–19, mae angen i ni ystyried effeithiolrwydd ein partneriaeth gydag ysgolion eraill, sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith. Dylai’r partneriaethau hyn gynnig cyfle i ddilyn ystod o gyrsgiau addysg alwedigaethol a chyffredinol addas.’	Yr holl themâu

Adran y FfAC	Beth mae llawlyfrau arweiniad Estyn ar hunanarfarnu yn ei ddweud am YGaTh	Cysylltiadau â phhecyn cymorth YGaTh
3.3.1 Partneriaethau strategol	‘Mae angen i ni ystyried pa mor strategol y mae ein hysgol yn gweithio gyda’i phartneriaid i wella safonau a lles disgyblion. Mae partneriaid yn cynnwys: • rhieni/gofalwyr; • ysgolion cynradd/uwchradd partner; • ysgolion eraill a darparwyr ôl-16 yn y rhwydwaith ardal; • gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc; • y gymuned; • cyflogwyr lleol; • ystod o asiantaethau amlddisgyblaethol a sefydliadau gwirfoddol; a • sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Dylai ein hysgol fod yn glir ynglŷn â’i rôl a’i chyfrifoldebau o fewn unrhyw bartneriaethau ffurfiol. Y mater allweddol yw pa mor dda y mae’r ysgol yn defnyddio partneriaethau strategol i helpu adeiladu ein cynhwysedd ar gyfer gwelliant parhaus. Bydd partneriaethau yn dibynnu ar gyswllt da, ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng partneriaid.’ C: A ydyn ni’n chwarae rhan allweddol mewn partneriaethau perthnasol ac effeithiol sydd o fudd i’n disgyblion? C: A ydyn ni’n gweithio mewn ffordd gydgyssylltiedig gydag asiantaethau eraill i wella safonau a lles disgyblion unigol? C: A ydyn ni’n glir ynglŷn â’n rôl a’n cyfrifoldebau o fewn ein partneriaethau?	Thema 3: Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â’r ysgol Thema 4: Helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plentyn Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol

Adran y FfAC	Beth mae llawlyfrau arweiniad Estyn ar hunanarfarnu yn ei ddweud am YGaTh	Cysylltiadau â phhecyn cymorth YGaTh
3.3.1 Partneriaethau strategol	C: A ydyn ni'n defnyddio partneriaethau strategol i'n helpu i adeiladu ein cynhwysedd ar gyfer gwelliant parhaus? C: A ydyn ni'n sicrhau bod cyswllt da, ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng ein hysgol a'n partneriaid? C: A ydyn ni'n ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned ehangach, gan gynnwys busnesau, asiantaethau allanol a'r sector gwirfoddol, er budd ein disgyblion?	
3.3.2 Cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd	C: A oes gennym strwythurau a phrosesau effeithiol sy'n cyfrannu'n dda at arferion cydweithio? C: Pa mor dda ydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i gynllunio, rheoli a sicrhau ansawdd darpariaeth? C: Pa mor dda ydyn ni'n gweithio gyda'n hysgolion partner i ddatblygu parhad mewn dysgu a lles? C: Pa mor dda ydyn ni'n gweithio gyda'n hysgolion partner i safoni a sicrhau ansawdd asesu gwaith a chysiau disgyblion? C: Pa mor dda ydyn ni'n gweithio gyda'n hysgolion partner i ddefnyddio a rhannu adnoddau yn effeithiol? C: Pa mor dda ydyn ni'n gweithio gyda'n hysgolion partner i drosglwyddo disgyblion yn rhwydd? C: Pa mor dda ydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod ein disgyblion yn gallu diilyn ystod o gyrsiau galwedigaethol a chysiau addysg gyffredinol addas? C: A ydyn ni'n sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn gwella deilliannau, yn enwedig cyflawniad?	Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol

Tabl 2: Sut y mae gwahanol themâu'r pecyn cymorth hwn yn cael eu nodi yn ystod arolygiadau Estyn

Thema ym mhecyn cymorth YGaTh	Crynodeb o'r disgrifiad 'Dylai pob ysgol ...'	Crynodeb o'r disgrifiad 'Mewn ysgolion llwyddiannus ...'	Cysylltiadau â'r FfAC a llawlyfrau hunanarfarnu Estyn
1. Arweinyddiaeth ar gyfer system sy'n ei gwella ei hun	Mae dull yr ysgol o YGaTh wedi'i ddisgrifio'n glir yn y cynllun datblygu ysgol ac mae uwch arweinwyr penodol yn hyrwyddo'r agenda hon. Mae'r ysgol yn myfyrio ar ymarfer cyfredol ac yn cynllunio gwaith yn y dyfodol.	Mae YGaTh yn rhan annatod o ethos yr ysgol ac mae teuluoedd yn cael eu gweld yn bartneriaid yn addysg eu plentyn. Mae ymgysylltu'n cael ei ystyried yn faes blaenoriaeth er mwyn gwella safonau, yn enwedig ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Mae'r ysgol wedi mapio ei thaith ar gyfer ei gwella ei hun.	Mae'r thema hon wedi'i hadlewyrchu yn FfAC 3.1.1 (Cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth), 3.1.2 (Llywodraethwyr neu fyrdau goruchwyllo eraill), 3.2.1 (Hunanarfarnu, gan gynnwys gwrando ar ddysgwyr ac eraill) a 3.2.2 (Cynllunio a sicrhau gwelliant), er nad oes cyfeiriad penodol at arwain ar ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd.
2. Sefydlu dull ysgol gyfan o YGaTh	Mae'r ysgol wedi cymryd camau i godi ymwybyddiaeth o'r agenda ymysg staff ac i feithrin gallu'r ysgol i ymgysylltu. Mae un neu ragor o uwch aelodau staff yn arwain dull ysgol gyfan yr ysgol.	Mae nifer o staff sydd â rôl sy'n cynnwys gweithgareddau ymgysylltu diffiniedig, a darperir cefnogaeth a hyfforddiant priodol ar eu cyfer. Mae un neu ragor o staff sydd â rolau penodol sy'n cynnal y dull ysgol gyfan, e.e., ynghylch presenoldeb, neu ymgysylltu â grwpiau penodol o deuluoedd.	Mae'r thema hon wedi'i hadlewyrchu yn FfAC 3.1.1 (Cyfeiriad strategol ac effaith yr arweinyddiaeth) a 3.1.2 (Llywodraethwyr neu fyrdau goruchwyllo eraill), er nad oes cyfeiriad penodol at ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd.

Thema ym mhecyn cymorth YGaTh	Crynodeb o'r disgrifiad 'Dylai pob ysgol ...'	Crynodeb o'r disgrifiad 'Mewn ysgolion llwyddiannus ...'	Cysylltiadau â'r FfAC a llawlyfrau hunanarfarnu Estyn
3. Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol	Mae'r ysgol yn lle croesawgar i deuluoedd, mae'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu ac yn darparu sianel glir ar gyfer mynegi barn gan deuluoedd. Mae'r ysgol yn gwneud ymdrech ychwanegol i ymgysylltu o gwmpas pwyntiau trosglwyddo ac i ymgysylltu â theuluoedd y mae wedi'i chael yn anodd eu cyrraedd cynt.	Mae'r ysgol yn teulwra ei gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn ôl anghenion rhieni/gofalwyr ar sail dealltwriaeth o rwystrau i ymgysylltu. Cynhelir digwyddiadau 'dod i adnabod' cynhwysol yn rheolaidd, ac mae gweithgareddau cymdeithasol a chyfleoedd eraill i deuluoedd wirfoddoli i gyfrannu i fywyd yr ysgol. Ymgynghorir â rhieni/gofalwyr yn rheolaidd, gwrandewir ar eu llais, ac maent yn ymddiried yn yr ysgol i ddelio â chwynion yn dda.	2.3.1 Darpariaeth ar gyfer iechyd a lles gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (ymgynghori â rhieni/gofalwyr a'u hysbysu). 2.3.4 Anghenion dysgu ychwanegol (ymgynghori â rhieni/gofalwyr dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol). 3.2.1 Hunanarfarnu, gan gynnwys gwrandeo ar ddysgwyr ac eraill (ystyried barn rhieni/gofalwyr). 3.3.1 Partneriaethau strategol (gweithio gyda theuluoedd i wella safonau a lles disgyblion).
4. Helpu teuluoedd i gefnogi dysgu eu plentyn	Mae'r ysgol yn defnyddio nosweithiau rhieni/gofalwyr a rhai gweithgareddau eraill i helpu ac annog teuluoedd i gefnogi dysgu eu plentyn yn effeithiol, gan ganolbwyntio ar deuluoedd y mae'n ymddangos eu bod yn darparu llai o gefnogaeth i ddysgu, ac ar deuluoedd dysgwyr sydd o gefndiroedd difreintiedig neu sy'n tanberfformio ar hyn o bryd.	Mae teuluoedd yn ymwneud fel partneriaid â dysgu eu plant ac yn cymryd rhan mewn gwahanol fathau o weithgareddau dysgu fel teulu sy'n meithrin eu sgiliau. Mae ymyrraethau ymgysylltu'n cael eu cynllunio ar sail dealltwriaeth o amgylchiadau, anghenion a dymuniadau teuluoedd. Darperir cyfleoedd hyfforddi penodol i gefnogi rhieni/gofalwyr plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.	2.2.2 Asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu (ymgysylltu â rhieni/gofalwyr ynghylch adroddiadau cynnydd). 2.3.2 Gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol (cefnogi disgyblion a theuluoedd). 3.3.1 Partneriaethau strategol (gweithio gyda theuluoedd i wella safonau a lles disgyblion).

Thema ym mhecyn cymorth YGaTh	Crynodeb o'r disgrifiad 'Dylai pob ysgol ...'	Crynodeb o'r disgrifiad 'Mewn ysgolion llwyddiannus ...'	Cysylltiadau â'r FfAC a llawlyfrau hunanarfarnu Estyn
5. Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol	Mae gan yr ysgol berthnasoedd effeithiol â'r lleoliadau sy'n ei bwydo er mwyn hwyluso trosglwyddo. Mae staff wedi'u hyfforddi'n dda mewn materion diogelu plant ac yn gwneud defnydd o weithio amlasiantaethol i gefnogi teuluoedd sy'n wynebu lluo o broblemau.	Mae'r trosglwyddo rhwng ysgolion yn cael ei gynllunio ac mae'n ddi-dor. Mae'r ysgol, gan weithio gyda rhieni/gofalwyr, yn datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol mewn ffordd strategol er mwyn cryfhau'r ymgysylltu â theuluoedd, cryfhau'r ysgol, a gwella safonau.	1.2.3 Ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau (disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol). 2.1.1 Diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned (profiad â ffocws gwaith a chyfraniad y gymuned o ran y cwricwlwm). 2.3.1 Darpariaeth ar gyfer iechyd a lles, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (meithrin dealltwriaeth y disgybl o'i gymuned a'i gyfraniad iddi). 2.3.2 Gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol (cael cefnogaeth arbenigol i ddysgwyr/teuluoedd oddi wrth asiantaethau eraill). 2.3.4 Anghenion dysgu ychwanegol (cefnogaeth arbenigol i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol drwy weithio amlasiantaethol). 2.4.1 Ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth (ethos cynhwysol sy'n cyfrannu at gydlyniant cymunedol). 3.3.1 Partneriaethau strategol (gweithio gyda phartneriaid i wella darpariaeth a safonau a lles disgyblion). 3.3.2 Cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd (arferion gweithio mewn partneriaeth gan gynnwys rhai ag ysgolion eraill).